Polisi Ffioedd a Chyllid Athrofa Padarn Sant

Tabl Rheoli Dogfen

Teitl y ddogfen:	**Polisi Ffioedd a Chyllid Athrofa Padarn Sant**
Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):	Kathryn Delderfield, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Athrofa Padarn Sant
Rhif y fersiwn:	3
Statws y ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad cymeradwyo:	25 Ebrill 2022
Cymeradwywyd gan:	Pwyllgor Gweithredol Athrofa Padarn Sant
Dyddiad rhoi mewn grym:	25 Ebrill 2022
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	2023
Y fersiwn a ddisodlir:	2
Dogfennau cysylltiedig:	

Hanes y ddogfen

Fersiwn	**Dyddiad**	**Awdur**	**Nodiadau ar yr adolygiadau**
1	**Gorffennaf 2019**	Kathryn Delderfield	
2	**Ebrill**	Kathryn Delderfield	Diweddarwyd i gynnwys rhaglenni ôl-radd Durham a rhai man newiddiadau i weithdrefnau
3	**Ebrill**	Kathryn Delderfield	Unrhyw gyfeiriadau at Brifysgol Caerdydd wedi eu tynnu allan. Newidiadau i drefniadau talu ffioedd.

Polisi Ffioedd a Chyllid Athrofa Padarn Sant

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Ffioedd
4. Ffioedd i israddedigion
   4.1 Llawn amser
   4.2 Rhan amser
5. Ffioedd i Ôl-raddedigion
6. Rhaglenni heb eu hachredu
7. Methiant i dalu ffioedd
8. Anhawster i dalu ffioedd

2. Cyflwyniad

Mae Athrofa Padarn Sant yn rhan annatod o'r Eglwys yng Nghymru a'i diben yw cyflwyno hyfforddiant a ffurfiant sy'n cwmpasu gwaith cenhadu ar gyfer holl bobl Duw. Yr Eglwys yng Nghymru yw prif ffynhonnell cyllid Padarn Sant, ac mae'n galluogi aelodau'r Eglwys yng Nghymru a chanddynt anghenion hyfforddi penodol i gael lleoedd a noddir ar nifer o raglenni. Mae Padarn Sant yn pennu ffioedd mewn modd teg, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth.

3. Ffioedd

Mae ffioedd rhaglen yn cyfrannu at gostau dysgu, achredu (pan fo hynny'n berthnasol), defnyddio'r llyfrgell (y llyfrgell ei hun ac yn electronig), ac adnoddau ar-lein. Nid yw'r ffioedd rhaglen yn cynnwys ffioedd ar gyfer unrhyw lety preswyl, costau teithio, prydau bwyd, nac adnoddau eraill fel llyfrau (er, fe all lleoedd a noddir gynnwys yr holl dreuliau hyn, neu rai ohonynt). Pan fo'r rhaglenni'n rhai preswyl, efallai y bydd cost y llety'n cael ei godi ar y dysgwr. Bydd ffioedd yn cael eu cyhoeddi cyn cofrestru ar gyfer pob blwyddyn academaidd. Er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn costau, efallai y bydd yn

angenrheidiol i Badarn Sant gynyddu ffioedd ar ddechrau pob blwyddyn ddilynol sy'n perthyn i raglen y dysgwr.

4. Ffioedd i israddedigion

4.1 Llawn amser

Mae'r cwrs B.Th. llawn amser wedi'i anelu at y rhai sy'n astudio ar gyfer y weinidogaeth, ac felly fe fydd dysgwyr fel arfer yn cael eu noddi gan yr Eglwys yng Nghymru neu enwad arall. Caiff ffioedd llawn amser eu codi ar ddechrau pob blwyddyn astudio. Gellir talu'r rhain yn flynyddol neu fesul tymor. Pan gaiff dysgwr llawn amser ei noddi gan Esgob yn yr Eglwys yng Nghymru, bydd y ffioedd dysgu, y ffioedd llety ym Mhadarn Sant, Caerdydd, a'r costau teithio sy'n gysylltiedig â hyfforddiant yn cael eu cynnwys yn y nawdd. Gellir dod o hyd i wybodaeth am grantiau eraill sydd ar gael gan Badarn Sant i ddysgwyr llawn amser a noddir yn y Nodiadau Ffurflenni Cais a gyhoeddir bob blwyddyn gan Gorff Cynrychiadol yr Eglwys yng Nghymru. Pe bai dysgwr yn tynnu'n ôl o'r cwrs, bydd yn gyfrifol am dalu'r ffioedd hyd at ddiwedd y tymor y rhoddodd y gorau iddi. Pe bai dysgwr yn cael ei noddi, a phe bai'r noddwr yn tynnu'r arian yn ôl, bydd y dysgwr yn gyfrifol am ei ffioedd o'r tymor ar ôl i'r nawdd ddod i ben, pe bai'n parhau gyda'i astudiaethau.

4.2 Rhan amser

Caiff ffioedd rhan amser eu codi ar ddechrau pob blwyddyn astudio. Mae'r rhain yn ddyledus ar ddechrau bob blwyddyn. Gall dysgwyr wneud cais I greu cynllun talu I dalu'r ffioedd yn dymhorol neu'n fisol. Mewn achosion lle mai cynllun talu mewn lle, bydd angen taliad llawn erbyn diwedd mis Ebrill. Bydd ffi gymorthdaledig yn cael ei chodi ar ddysgwyr sy'n aelodau o'r Eglwys yng Nghymru. Pe bai dysgwr yn tynnu'n ôl o'r cwrs, bydd yn gyfrifol am dalu'r ffioedd hyd at ddiwedd y tymor y rhoddodd y gorau iddi. Pe bai dysgwr yn cael ei noddi, a phe bai'r noddwr yn tynnu'r arian yn ôl, bydd y dysgwr yn gyfrifol am ei ffioedd o'r tymor ar ôl i'r nawdd ddod i ben, pe bai'n parhau gyda'i astudiaethau.

5. Ffioedd i Ôl - raddedigion

5.1 Rhaglenni wedi'u hachredu gan Brifysgol Caerdydd

Bydd dysgwyr sydd wedi eu cofrestru gyda Phrifysgol Caerdydd yn cael eu bilio can Brifysgol Caerdydd am ddysgu ac achredu, yn ôl ei chyfraddau safonol. Gellir dod o hyd

i'r rhain ar ei gwefan https://www.cardiff.ac.uk/cy. O safbwynt talu ffioedd, bydd amodau a thelerau Prifysgol Caerdydd yn berthnasol i achosion lle y rhoddir y gorau i gyrsiau.

Bydd ffioedd am lety ac arlwyo'n daladwy i Badarn Sant, a byddant yn cael eu pennu cyn i'r broses gofrestru gychwyn bob blwyddyn. Caiff ffioedd ar gyfer arlwyo'u codi ar ddechrau'r flwyddyn a ffioedd ar gyfer llety yn cael eu codi yn dilyn bob cyfnod preswyl. Bydd ffioedd yn daladwy o fewn mis. Pe bai dysgwr yn tynnu'n ôl o'r cwrs, bydd yn gyfrifol am dalu ffioedd llety ac arlwyo hyd at ddiwedd y tymor y rhoddodd y gorau iddi.

Pan gaiff dysgwr ei noddi, neu yn derbyn grant mae e angen iddynt gynnwys manylion y noddwr/grant ar y ffurflen gais. Bydd angen hefyd angen cadarnhad ysgrifenedig ar Badarn Sant gan y noddwr. Pe bai'r noddwr yn tynnu'r arian yn ôl, bydd y dysgwr yn gyfrifol am unrhyw ffioedd sy'n ddyledus i Badarn Sant o'r tymor ar ôl i'r nawdd ddod i ben, pe bai'n parhau gyda'i astudiaethau.

5.2 Ffioedd rhaglenni Ôl-raddedig Padarn Sant

Bydd ffioedd dysgu ac achredu ar gyfer myfyrwyr ar y rhaglen M.A. yn daladwy I Athrofa Padarn Sant. Gellir dod o hyd i'r ffioedd ar wefan Athrofa Padarn Sant, ar dudalen gwefan y cwrs perthnasol.

Fel arfer mae cyflwynir rhaglenni M.A., drwy gyfnodau preswyl, ac felly os nad yw dysgwyr yn cysylltu â'r Cydlynydd Ôl-raddedig i wneud trefniadau eraill, manylion cyswllt i'w gweld ar wefan Athrofa Padarn Sant <https://www.stpadarns.ac.uk/cy/about/team/operational-staff/>) bydd ffioedd ar gyfer llety ac arlwyo yn cael eu codi ar ddysgwyr ar gyfer cyfnodau preswyl sy'n cael eu cynnal o fewn y tymor. Mae anfonebau yn daladwy o fewn mis. Os ydy dysgwr yn rhoi gorau i'r cwrs, bydd ffioedd yn cael eu codi am lety ac arlwyo tan ddiwedd y tymor wnaethant roi'r gorau i'r cwrs.

6. Rhaglenni heb eu hachredu

Efallai y bydd ffioedd yn cael eu codi mewn perthynas â rhaglenni eraill a gaiff eu rhedeg gan Athrofa Padarn Sant ei hun. Pe bai dysgwr yn tynnu'n ôl o raglen nad yw wedi'i hachredu llai na 7 diwrnod cyn iddi gychwyn, bydd yn gyfrifol am dalu'r ffioedd llawn.

7. Methiant i dalu ffioedd

Os na fydd ffioedd wedi'u talu o fewn 30 diwrnod ar ôl y diwrnod yr oeddynt yn ddyledus, bydd Padarn Sant yn cymryd camau i adennill y ffioedd. Ymhellach, fe allai methu â thalu ffioedd arwain at wahardd y dysgwr o'r rhaglen, ei dynnu oddi ar y rhaglen, neu wrthod iddo symud yn ei flaen i gam nesaf y cwrs.

8. Anhawster i dalu ffioedd

Mae Padarn Sant eisiau rhoi pob cyfle i'r holl ddysgwyr gwblhau eu rhaglen. Os bydd dysgwr yn cael anhawster i dalu ei ffioedd, dylai roi gwybod i'w tiwtor neu i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau cyn gynted ag y bo modd (gellir dod o hyd i fanylion ar wefan Padarn Sant https://www.stpadarns.ac.uk/cy/about/team/operational-staff/https://www.stpadarns.ac.uk/). Bydd cynllun talu'n cael ei drafod a bydd Padarn Sant yn gwneud pob ymdrech i fod yn hyblyg.